



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Gorffennaf 2015 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 July 2015 at 6.30pm at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors** John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Dai Brabrook, Clive Davies, Graham Evans, Melfydd George, Gwynfi Jenkins, Neal Jones, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i'r cyfarfod. Da oedd gweld y Cyng. Llwyd Edwards yn mynychu digwyddiadau cyhoeddus yn ddiweddar. Llongyfarchwyd y canlynol: Coleg Ceredigion ar ddatblygiad y ganolfan iaith ("Y Man a'r Lle") sydd i'w hadeiladu ar y safle ar gost o £300,000; y Meistri Derek Burton a Guto Crompton ar eu gorcest yn cario sachaid o lo (50k) am 55 awr er budd elusen i gynorthwyo dwy ferch fach sydd angen cyfarpar a thriniaeth arbenigol; swyddogion Gŵyl Fawr Aberteifi ar barhad llwyddiant yr Wyl gyda pherfformiadau gwych gan CICA ("Cylch Ieuenctid Cylch Aberteifi") yn perfformio "Sôn am Sgandal" a Chyngerdd Cloi'r Wyl ar y nos Sul; llwyddiant Côr Undebol Ar Ôl Tri yn ennill y prif wobr i gorau (Côr yr Wyl) yn ogystal â'i gyfraniad i gloi cyngerdd agoriad swyddogol y Castell ar 25 Mehefin; y Tad Seamus Cunnane ar ddathlu trigain mlynedd yn y weinidogaeth; Her Cylchdaith Cymru (Taith Elen, chwaer y tenor Rhys Meirion) yn ymweld â'r dre i godi ymwybyddiaeth o roi organau; agoriad swyddogol y Castell gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones, a'r gyngerdd fawreddog Gymreig oedd yn dilyn ar y noson gyda 500 o bobl yn bresennol. Cynhelir drama ("Stori Aberteifi") gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Aberteifi yn Theatr Byd Bychan ar 14 a 15 Gorffennaf. Mynegodd y Maer ei siom drwy ddeall nad oedd gwelyau i'w cynnwys yng nghyfleustra iechyd newydd Aberteifi; cytunwyd bod y clerc yn anfon llythyr at y Gweinidog iechyd yn datgan siom y cyngor unwaith eto.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed all to the meeting. He was pleased to see Cllr Llwyd Edwards attending local events recently. The Mayor warmly congratulated the following: Coleg Ceredigion on its new language centre which will be developed on-site at a cost of £300,000; Messrs Derek Burton and Guto Crompton on their achievement in carrying a sack of coal (50k) for 55 hours in aid of a charity supporting two little girls who need specialist equipment and treatment; Gŵyl Fawr Aberteifi on its success once again with excellent performances by CICA ("Cylch Ieuenctid Cylch Aberteifi") and the Sunday night concert; the success of Ar Ôl Tri winning the Eisteddfod's "Choir of Choirs" competition, and also its contribution to the finale of Cardigan Castle's opening night concert; Canon Seamus Cunnane who celebrated sixty years since his Ordination to the Priesthood; the Lap of Wales (Elen's Fund) to raise awareness of promoting organ donation in Wales; the official opening of Cardigan Castle in the presence of the First Minister, Carwyn Jones, followed by the superb evening concert with 500 people in attendance. The pupils of Ysgol Gynradd Aberteifi will stage a play ("The Story of Cardigan") in the Small World Theatre on 14 and 15 July.

The Mayor concluded by announcing his disappointment at the declaration that no beds have been allocated to the new health facility to be developed in Cardigan; the clerk was asked to forward another stern letter to the Health Minister expressing members' displeasure.

2. **Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng./Cllrs Llwyd Edwards (*anhwylus/unwell*), Ken Edwards (*dyletswyddau gwaith/work commitments*), Richard Jones (*anhwylus/unwell*), Mark Cole (*dyletswyddau gwaith/work commitments*).

## 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pherionol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	Yr holl faterion cynllunio/All planning matters
Cyng./Cllr Catrin Miles	Cynllunio/Planning A150374

#### 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 2 Mehefin

Confirmation of Minutes of 2 June Council Meeting.

**Tud. 1006, eitem 13(c): Dyddiad Gŵyl Afon a Bwyd – 8 Awst , nid 9 Awst.**

Page 1006, item 13(c): Date of River & Food Festival – 8 August, not 9 August.

**Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y cofnodion yn gywir.**

With the above amendment, Cllr Dai Brabrook proposed that the minutes were correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

#### 5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

**Tud. 1001, eitem 8 (Cynllunio): Siom oedd deall nad oedd yr adran gynllunio wedi ymateb i sylwadau'r cyngor ynglŷn â cheisiadau ôl-dremiol a manylion ar gais A150287. Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis y byddai'n codi'r materion yn y cyfarfod perthnasol.**

**Tud. 1006, eitem 13(d): Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis nad oedd y plac wedi ei ailosod yng Ngardd Brioude; disgwylir ei fod yno erbyn ymweliad pobl o efeilldref Brioude ym mis Awst.**

Page 1001, item 8 (*Planning*): It was disappointing that the planning department had not responded to the council's observations regarding the retrospective applications and the LDP points raised on planning application A150287. Cllr Adams-Lewis stated that he would raise the matter at the appropriate meeting.

Page 1006, item 13(d): Cllr Adams-Lewis stated that the plaque had not been replaced on the Brioude Garden wall; he reiterated his previous comments that it is imperative that it be replaced before the visit of Brioude friends in August.

#### 6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Dosbarthwyd dyddiadur y Maer i bob aelod yn y cyfarfod.**

The Mayor's diary was distributed to all members at the meeting.

#### 7. Cynllunio / Planning

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A150374	16 Bro Teifi	Alterations and extensions	Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais. Council supports the application.

#### **Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:**

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Penderfyniad / Decision
A140960	HSBC Banking Plc, 11 High Street	Existing external ATM to be replaced with new model ATM in same location	Wedi ei ganiatáu gydag amodau. Permission has been granted with conditions (2)

#### 8. (a) Biliau wedi eu talu / Bills paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/6/15	Antur Teifi: Rhent y Swyddfa / Rent of Office	A9	D/D	£238.33 (0.00)
27/6/15	Midshires: Prydles y llungopiwr / Lease of photocopier	A17	D/D	£150.00 (25.00)
7/6/15	Mrs Lynne Davies: Arlwyo Gwasanaeth Dinesig / Catering for Civic Service (7/6/15) (64 @ £5)	A4	4128	£320.00 (0.00)
17/6/15	BT: Ffôn / Telephone	A20	4129	£76.38 (12.73)
24/6/15	Sutcliffe Play: Cyfarpar man chwarae Brenin Siôr 5ed / Centre Crutch Supports (4) for King George 5 <sup>th</sup> Playing Field play equipment	C3	4130	£92.09 (15.35)
24/6/15	BDO: Archwilydd Allanol / External Auditor	A13	4131	£498.00 (83.00)
30/6/15	Antur Teifi: Rhent yr Ystafell Gynhadledd. Rent of Conference Room (2/6/15, 16/6/15)	A7	4132	£60.00 (10.00)
13/6/15	David Trem: Blodau'r Haf / Summer Flowers	C1	4133	£393.000 (0.00)
30/6/15	Bachan Deche / Handyperson (Mehefin/June)	A19	4134	£560.70 (93.45)

30/6/15	HMRC: PAYE £561.60, Class 1 NIC £107.67 ( <i>Ebrill, Mai, Mehefin – April, May, June</i> )	A15	4135	£669.27 (0.00)
1/7/15	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mehefin/ June)</i>	A3	4136	£748.90 (0.00)
30/6/15	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translating (2/6/15)</i>	A18	4137	£98.40 (16.40)
7/7/15	<i>Argraffwyr E. L. Jones Printers: Argraffwaith Sefydlu'r Maer/Mayor Making Deunydd Canol y Dref / Town Centre Stationery Deunydd swyddfa / Stationery</i>	A4 C2 A7	4138	£247.60 (11.60) £163.20 (27.20) £51.60 (8.60)

**Cynigiodd y Cyng. Jane Roche bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Neal Jones.**

Cllr Jane Roche proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Neal Jones.

<b>Derbyniadau/Receipts:</b>	11/5/15	Lloyds Bank: <i>Llog y Banc/Bank Interest</i>	£4.05
	4/6/15	<i>Cantref: Hurio offer cyfieithu / Hire of translating system</i>	£15.00
	16/6/15	HM Revenue & Customs: <i>Ad-daliad y DAW / Repayment of VAT</i>	£6,393.10
	19/6/15	<i>Cantref: Hurio offer cyfieithu / Hire of translating system</i>	£30.00

**(b) Adroddiad Ariannol hyd ddiwedd Mehefin 2015.**

Financial Report to the end of June 2015.

**Anfonwyd yr Adroddiad Blynyddol (Ebrill-Mehefin) ymlaen at y cynghorwyr. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw fater i'w drafod o'r fantolen.**

The three-monthly Annual Report (April-June) was forwarded to councillors. Members had no issues to discuss regarding the report.

**(c) Cyflwyniad o Adroddiad Blynyddol BDO i'r cyngor. Mae angen ei dderbyn gan y cyngor. Mae'r clerc wedi gosod y daflen Hysbysiad o Derfyniad yr Archwiliad ar yr hysbysfwrdd am bythefnos o 2 Gorffennaf.**

**Cynigiwyd gan y Cyng. Melfydd George bod y cyngor yn derbyn adroddiad yr archwilydd allanol, BDO. Eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans. Roedd pawb o blaid.**

Presentation of the completed Annual Return to council. Return to be approved and accepted by council. The external auditor, BDO, Southampton, has confirmed that there were no matters which needed the auditor's attention. The clerk has displayed the Notice of Conclusion of Audit on the council notice board from 2 July for 14 days.

It was proposed by Cllr Melfydd George that the council approves and accepts the report of the external auditor, BDO. This was seconded by Cllr Graham Evans.

All members were in favour.

**9. Toiledau Cyhoeddus / Public Conveniences.**

**Trafodwyd ymateb Elin Jones AC (gweler gohebiaeth [77]) i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): "Darparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio." Dywedodd Ms Jones y byddai proses sriwtini'r Mesur yn dechrau yn ystod y mis nesaf. Ni fydd y Mesur yn ddeddf tan o leia' mis Ebrill 2016. Penderfynwyd, felly, bod y cyngor yn aros tan y flwyddyn nesaf cyn cymryd camau pellach.**

The response received from Elin Jones AM (see correspondence [77]) to the Public Health (Wales) Bill: "Provision of toilets available for use by the public" was discussed. Ms Jones stated that the scrutiny process will commence during the next month. The Bill will not become legislation before April 2016. It was, therefore, agreed, that the council postpones any decision regarding the provision of toilets until next year.

**10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. Mark Cole (*blaenyrwyd yn ei absenoldeb*):**

- (i) Dywedodd y Cyng. Cole bod y cynllun i newid gosodiad mewnol Canolfan Ddydd yr Hafod, a oedd i fod yn barod erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf, wedi ei brisio yn £215,000, sydd tipyn yn uwch na'r pris gwreiddiol; mae'r cyngor sir wedi derbyn y pris.
- (ii) Dywedodd hefyd bod adran briffyrdd y cyngor sir yn ysgrifennu at drigolion sydd â llain ym mynwent Netpwl, sef y rhai nad ydynt yn cadw at reolau a rheoliadau'r fynwent, yn eu gofyn i symud y rhwystradau dros gyfnod o dri mis er mwyn

hwyluso'r gwaith cynnal a chadw. Mae'n fater o sensitifrydd sydd angen ei drin yn ofalus.

- (iii) Wedi i'r cyngor dderbyn adroddiad archwiliad y maes gan ROSPA, bwriad y Cyng. Cole yw cynnal cyfarfod gyda Mr Philip Attewell a'r Cyng. Dai Brabrook er mwyn trafod cyflwr y maes sgrialu a'r ffordd ymlaen.

**(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) Cysgodfeydd bysiau: Yn dilyn nifer o gwynion drwy'r sir ynglŷn â'u cyflwr, disgwylir adroddiad oddi wrth y cyngor sir yn fuan.
- (ii) Fandaliaeth ar y mesuryddion parcio ym meysydd parcio y dref. Amcangyfrifir y gost o'u haillosod yn £24,000. Ychwanegodd rhai aelodau bod y dref yn elwa o feysydd parcio rhad ac am ddim a bod nifer o siopau yn datgan cynnydd ym mhrysurddeb y stryd fawr. Eglurwyd hefyd bod agoriad y castell a thymor y twristiaid yn cyfrannu at gynnydd yn y bwrlwm. Bydd y cyngor sir yn cynnal Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y sefyllfa cyn bo hir. Er gwybodaeth, awgrymwyd y dylid gofyn am ffigurau diweddaraf yr incwm a dderbynnir o feysydd parcio'r dref.

**(c) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) Sgrialu ar gei'r Tywysog Siarl. Er bod y Cyng. Miles eisoes wedi datgan y broblem, nid yw adran ystadau'r cyngor sir, hyd yn hyn, wedi gosod arwydd yn atal defnyddwyr cyfarpar sgrialu rhag defnyddio'r cei; gwelir difrod i nifer o'r cerrig ar y safle. Awgrymwyd bod yr arwyddion yn cyfeirio'r defnyddwyr at y maes sgrialu swyddogol sydd ger Bron-y-dre.
- (ii) Arwyddion newydd i'r dre: Mae Partneriaeth Canol Dref yn bwriadu trafod y mater. Mae Cabinet y cyngor sir hefyd yn bwriadu trafod ychwanegu at yr arwyddion bys sydd ar byst y strydoedd. Bydd angen caniatâd Llywodraeth Cymru cyn symud ymlaen i ailosod arwyddion ar brif-ffyrdd yr ardal.
- (iii) Mae trefniadau ar y gweill gan y cyngor sir i apwyntio Dirprwy Prif Weithredwr gan fod sawl pennaeth adran yn ymddeol yn ystod y misoedd nesaf; disgwylir newidiadau dybryd i ddyletswyddau'r swyddogion yn y dyfodol.

**(a) Cllr Mark Cole (e-mailed forwarded in his absence):**

- (i) Cllr Cole reported that the scheme to change the internal layout of the Hafod Day Centre, which was due in the early part of the year, has finally been priced at £215,000 which exceeds the budget for the work; the county council has agreed to accept the price.
- (ii) Cllr Cole reported that the county council's Highways Department is writing to residents with plots in the Netpool Cemetery whose memorials do not conform to the cemetery rules and regulations, asking that the obstructions are removed over a 3 month timescale to allow the regular upkeep of the cemetery to continue. It is acknowledged that this is a sensitive matter which needs to be treated delicately.
- (iii) Cllr Cole reported that he hopes to visit Mr Philip Attewell along with Cllr Dai Brabrook as soon as both can agree a mutually convenient time to do so to further discuss the condition of the Skateboard Park, once the annual ROSPA report has been received.

**(b) Cllr John Adams-Lewis:**

- (i) Bus shelters: Following numerous complaints throughout the county regarding the poor condition of the bus shelters, a report is expected soon from the county council.
- (ii) Vandalism of the car parking meters: The cost of replacing the meters is put at £24,000. Some members stated that the high street had seen an increase in trade due to the free parking available to shoppers; it was also mentioned that the opening of Cardigan Castle and the commencement of the tourist season had contributed greatly to the high street boom. The county council will hold a Task & Finish Group meeting shortly. It was suggested that obtaining the car park revenue figures for Cardigan would be advantageous.

**(c) Cllr Catrin Miles:**

- (i) Skateboarding on Prince Charles Quay: Cllr Miles has raised the problem with the estates department of the county council; signs have not, as yet, been placed prohibiting users from using the site and thereby damaging the kerb stones on the quay. It was suggested that signs are placed on the quay directing users towards the skateboard park near Bron-y-dre.

- (ii) New town signs: The Town Centre Partnership will discuss the issue in due course. The county council Cabinet has agreed to discuss the addition of finger posts on the streets of Cardigan. Welsh Government permission will be required before proceeding with plans to place signs on the main roads.
- (iii) As a number of senior executives will retire shortly, plans are afoot by the county council to appoint a Deputy Chief Executive; additional duties are expected to be included in the job description of future officers.

## 11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
63	CSC / CCC (Bronwen Morgan): <i>Gwahoddiad – Canfaswyr y Gwasanaethau Etholiadol.</i> Invitation – Electoral Services Canvassers.	<i>Os oes diddordeb gan unrhywun, cysyllter â'r clerc.</i> If anyone is interested, please contact the clerk.
64	CSC / CCC (Diana Davies): <i>Ymgynghoriad ar Gyllideb 2015-16.</i> Budget Consultation (to be returned by 30/6/15)	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau ar 16/6/15.</i> Forwarded to members on 16/6/15.
65	<i>Busnes Cymru:</i> <i>Seminar yng Nghastell Aberteifi, 8/7/15, 8.00-10.00yb.</i> Business Wales: Seminar at Cardigan Castle, 8/7/15, 8.00-10.00am.	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau ac i'r ddwy Siambr Fasnach ar 25/6/15. Bydd y Cyng. Clive Davies yn bresennol yn y digwyddiad.</i> Forwarded to members and both Trading Chambers on 25/6/15. Cllr Clive Davies will attend the event.
66	<i>Ombwdsmon: Adroddiad Blynyddol 2014-15.</i> Ombudsman: Annual Report 2014-15.	<i>Mae'r Adroddiad ar gael yn swyddfa'r cyngor.</i> Report is available at council office.
67	<i>Sioe Amaethyddol Sir Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu'r ginio ar 29/7/15.</i> Cardigan County Agricultural Show Society: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Show luncheon, 29/7/15.	<i>Wedi ei anfon i'r Maer.</i> <i>Forwarded to the Mayor.</i>
68	Coleg Ceredigion: <i>"Dwylo Dawnus": Arddangosfa o waith y myfyrwyr, yn y Gyfnewidfa Yd, 15/6/15, 6.30yh.</i> Exhibition of work hand-crafted by students, Corn Exchange, 15/6/15, 6.30pm.	<i>Cynrychiolwyd y cyngor gan y Maer yn yr arddangosfa.</i> The council was represented by the Mayor at the exhibition.
69	<i>Cadwgan: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu agoriad swyddogol y Castell, 25/6/15, 12.30yp.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the official opening ceremony of Cardigan Castle on 25/6/15, 12.30pm.	<i>Wedi ei anfon i'r Maer.</i> <i>Forwarded to the Mayor.</i>
70	<i>Her Cylchdaith Cymru: "Cronfa Elen", Theatr Mwldan, 6/7/15, 1.30yp. (Ymdrech Rhys Meirion).</i> The Lap of Wales Challenge: "Elen's Fund".	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau ar 9/6/15.</i> Forwarded to members on 9/6/15.
71	<i>Tai Canolbarth Cymru: Rhan-berchenogaeth gyda Budd Rhwyd Ddiogelwch: Holiadur.</i> Mid-Wales Housing: Shared Ownership with the Benefit of a Safety Net: Questionnaire.	<i>Sylwadau wedi eu hanfon ar 17/6/15 (gweler cofnodion yr is-bwyllgorau, tudalen 1009).</i> Observations forwarded on 17/6/15 (see sub-committee minutes page 1009).
72	St John Ambulance (Mr Keith Taylor): <i>Yn cadarnhau dyddiad yr arddangosfa i ddathlu bodolaeth y gwasanaeth, 25/3/16.</i> Confirming the date for the past and present exhibition.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
73	<i>Clwb Probus Glannau Teifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu'r Cinio Blynyddol, Gwesty'r Cliff, 14/10/15, 12.30yp.</i> Teifiside Probus Club: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Annual Luncheon at the Cliff Hotel, 14/10/15, 12.30pm.	<i>Wedi ei anfon i'r Maer.</i> <i>Forwarded to the Mayor.</i>
74	Canolfan Enfys Teifi: <i>Gwahoddiad i'r Maer i Fore Agored.</i> Invitation to the Mayor to the Open Morning, 7/7/15, 10.00am	<i>Wedi ei anfon i'r Maer.</i> <i>Forwarded to the Mayor.</i> <i>Poster o'r digwyddiad wedi ei arddangos.</i> Poster of event has been placed on notice board.
75	W. J. Williams & Davies, <i>Cyfreithwyr/Solicitors:</i> <i>Llythyron ynglŷn a phrydlesau'r Clwb Bowls a'r Clwb Rygbi.</i> Letters pertaining to the leases of Cardigan Bowls Club and Cardigan RFC.	<i>Mae'r clerc wedi anfon gohebiaeth at y Comisiwn Elusennau yn gofyn eu barn ar y cytundeb diweddaraf rhwng y cyngor ac ymddiriedolwyr y Clwb Bowls.</i> The clerk has forwarded correspondence to the Charity Commission regarding the latest proposals agreed between the council and the Bowls Club trustees.

76	<i>Llywodraeth Cymru: Bil Iechyd y Cyhoedd – Darparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.</i> Welsh Government: Public Health (Wales) Bill – Provision of toilets available for use by the public.	<i>Mae'r mater wedi ei drafod yn yr is-bwyllgor.</i> Issue has been discussed at the sub-committee.
77	<i>Elin Jones AC/AM: Ymateb i'r Bil uchod.</i> Response to the above matter re. the Public Health Bill.	<i>Trafodwyd tan eitem 9 (Toiledau Cyhoeddus).</i> Discussed under item 9 (Public Conveniences)
78	<i>Mr John McGlynn: Gohebiaeth a lluniau am broblem colomennod ar adeiladau a phalmentydd Aberteifi.</i> Correspondence and photographs concerning pigeon fouling on buildings and pavements in Cardigan	<i>Cytunodd y Cynghorwyr Adams-Lewis a Catrin Miles drafod y mater gydag adran amgylcheddol y cyngor sir.</i> Cllr Adams-Lewis and Cllr Catrin Miles agreed to pursue the issue with the environmental department of the county council.
79	Miss Lowri Davies: <i>Cais am gymorth ariannol – trafodwyd yn yr is-bwyllgor.</i> Request for financial assistance – discussed at the sub-committee.	<i>Cynghorwyd Miss Davies i gysylltu ag Adran Grantiau'r cyngor sir.</i> Miss Davies was advised to contact the county council Grants department.
80	<i>3<sup>rd</sup> Cardigan Sea Scout Group:</i> <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Request for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> To be considered at the September Grants Sub-committee.
81	<i>Ysgol Gynradd Aberteifi: Cais am gymorth ariannol.</i> <i>Request for financial aid (Eisteddfod yr Urdd, Caerffili)</i>	<i>Cynigiodd y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Melfydd George bod y cyngor yn cyfrannu £200 tuag at gostau teithio'r ysgol i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili.</i> Cllr Jane Roche proposed that the council donates £200 towards the travelling costs of the school to the Urdd National Eisteddfod at Caerphilly. Seconded by Cllr Melfydd George.
82	<i>Theatr Byd Bychan / Small World Theatre:</i> <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Request for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Medi.</i> To be considered at the September Grants Sub-committee. Application form forwarded 7/7/15.
83	<i>Menter Aberteifi: Cais am llythyr o gefnogaeth.</i> Request for a letter of support for an application for a community grant for the hire of scaffolding, improved fittings in the Corn Exchange and high-grade PA system with greater flexibility and capability.	<i>Cytunwyd bod y clerc yn afnon llythyr o gefnogaeth.</i> It was agreed that the clerk forwards a letter of support.
84	<i>Menter Aberteifi:</i> <i>Gwahoddiad i'r Maer agor Gŵyl Afon a Bwyd, 8/8/15, 11.00yb.</i> Invitation to the Mayor to open the River & Food Festival, 8/8/15, 11.00am.	<i>Wedi ei anfon i'r Maer.</i> <i>Forwarded to the Mayor.</i>
85	<i>BDO: Gohebiaeth ynglŷn â therfyniad yr archwiliad.</i> Final conclusion regarding council accounts for 2014-15:	<i>Derbyniwyd yr adroddiad heb unrhyw gwestiwn i'w drafod.</i> There were no matters which needed attention. Notice of Conclusion of Audit has been displayed on notice board from 2/7/15 for 14 days.
86	<i>Cantref: 2 daliad ( £15 a £30) am hurio'r offer cyfieithu.</i> 2 payments (£15 & £30) for hire of translating equipment	<i>Sieciau wedi eu talu i'r banc.</i> Cheques paid to bank.
87	<i>HM Revenue &amp; Customs: Ad-daliad y dreth ar werth.</i> Repayment of VAT, 2014-15 (£6,393.10)	<i>Wedi ei dalu'n uniongyrchol i'r banc.</i> <i>Paid by BACS to bank.</i>
88	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Mehefin.</i> Handyperson's June report.	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.
89	<i>CSC/CCC (Adran Drwyddedu/Licensing Section: Adolygu'r Polisi Trwyddedu – Ymgynghori â'r Cyhoedd.</i> Review of Licensing Policy for Public Consultation. Closing date: 31/7/15.	<i>Wedi ei flaenyrru i'r aelodau ar 7/7/15.</i> <i>Cytunwyd bod yr aelodau yn ymateb yn bersonol i'r ymgynghoriad.</i> Forwarded to members on 7/7/15. It was agreed that members personally reply to the consultation.

**Bronwen Morgan:** *Prif Weithredwr.* Chief Executive.

**Diana Davies:** *Rheolwr Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.*  
Future Generations and Local Service Board Manager

**12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

**Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 16 Mehefin.**

Confirmation of 16 June Sub-committee Minutes.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Akira Shimazaki ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y cofnodion yn gywir.**

It was proposed by Cllr Akira Shimazaki and seconded by Cllr Dai Brabrook that the minutes were correct.

**Materion yn codi / Matters arising**

**Tud. 1007: Diolchodd y Cyng. Akira Shimazaki ar ran yr ymwelydd o Japan, Mr Hiroshi Yakubo, am y croeso cynnes a estynnwyd iddo yn is-bwyllgor mis Mehefin. Cafodd awyrgylch Gymreig y cyfarfod argraffiad cadarnhaol ar Mr Yakubo.**

Page 1007: On behalf of Mr Hiroshi Yakubo, the observer from Japan who was present at the June sub-meeting, Cllr Akira Shimazaki thanked the members for their warm welcome. The use of the Welsh language had made a lasting impression on Mr Yakubo.

***Adroddiad y Bachan Deche:***

**Croesawyd y gwaith o ail-leoli'r potiau blodau ar hyd strydoedd Aberteifi. Cytunwyd bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at gwmni Mri J. J. Williams a'r Teulu am eu caredigrwydd yn hwyluso'r gwaith yma.**

***Handyperson's Report:***

The re-positioning of the flower pots and planters on the street of Cardigan was welcomed by the council. It was agreed that a letter of appreciation be forwarded to Messrs J. J. Williams and Family for their assistance in town centre matters.

**13. Personél / Personnel.**

**14. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei gadwyn.**

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chain of office.

**Sicrhaodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel. Dywedodd hefyd bod y Cyng. Gill Hopley, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, wedi gwirfoddoli esmwytho'r gadwyn gan winio darn o gotwm felfed ddu oddi tani. Cytunwyd derbyn cynnig caredig y Cyng. Hopley.**

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody. Cllr Adams-Lewis stated that Cllr Gill Hopley, the present Chairman of Ceredigion County Council, had volunteered to sew a cotton-velvet black support to the chain. It was agreed to accept Cllr Hopley's kind gesture.

**15. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the Mayor's discretion.

**(a) Mesuryddion meysydd parcio Aberteifi.**

Car park meters in Cardigan.

**Trafodwyd tan eitem 10(b)(ii) (Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir)**

The item was discussed under item 10(b)(ii) (Reports from County Councillors)

**(b) Cytunwyd bod enw'r Maer yn cael ei ddiddymu o fwrdd y Pwll Nofio ar restr "Cynrychiolwyr ar fudiadau allanol".**

It was agreed to delete the Mayor from the Swimming Pool board on the list of "Representatives on external bodies".

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.35yh***

***There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.35pm.***

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....